## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol PCS y Cynulliad, a chyfarfod busnes a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017

Yn bresennol: Julie Morgan AC (cadeirydd); Mick Antoniw AC; Helen West (swyddfa Julie Morgan AC); Brett John (swyddfa Simon Thomas AC); Jillian Purvis (swyddfa Huw Irranca-Davies AC), Shavanah Taj (PCS); Darren Williams (PCS).

1. **Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges, Llyr Gruffydd a Simon Thomas.

2. **Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
   (a) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd: Cafodd Julie Morgan a Bethan Jenkins eu hail-ethol fel cadeirydd ac is-gadeirydd, yn y drefn honno.
   (b) Adroddiad Blynyddol -Adolygodd y cyfarfod weithgareddau'r Grŵp ers ei gofrestriad ffurfiol ar 6 Rhagfyr 2016, gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol ar 15 Tachwedd 2016 a 14 Chwefror 2017 a sesiynau briffio galw heibio ar gau swyddfeydd DWP a HMRC ar 1 Mawrth a 4 Gorffennaf 2017. Roedd y materion a drafodwyd wedi cynnwys anghydfod cyflog Amgueddfa Cymru; yr anghydfod ynghylch ailstrwythuro a diswyddiadau yn yr EHRC; newidiadau Llywodraeth y DU i Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (ers ei wrthdroi yn y llysoedd); a'r cau swyddfeydd a grybwyllwyd yn flaenorol. Cytunwyd i ymgorffori'r wybodaeth hon mewn adroddiad ffurfiol i'w gyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno.
   (c) Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf - rhoddwyd ystyriaeth i gynnal cyfarfodydd â mwy o ffocws, gan ymdrin ag un mater o bryder cyffredinol ac awgrymwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r ymgyrch dâl genedlaethol a Chredyd Cyffredinol yn hyn o beth. Roedd Ysgrifennydd Cyffredinol PCS, Mark Serwotka, bellach yn byw yng Nghymru a byddai ar gael i fynychu cyfarfodydd Grŵp yn fwy rheolaidd.

3. **Ymgyrch dâl genedlaethol PCS**

Roedd PCS yn cynyddu ei hymgyrch genedlaethol wrth wrthwynebu cap cyflog 1% Llywodraeth y DU ac roedd wedi cynnal pleidlais ymgynghorol, a gaeodd ar 6 Tachwedd, lle pleidleisiodd y mwyafrif helaeth o aelodau y dylid dileu'r cap tâl, y dylai'r adnoddau fod ar gael i ddarparu codiad tâl uwch na chwyddiant ac y byddent yn fodlon cymryd camau gweithredu diwydiannol os oedd angen. Roedd Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol PCS wedi bod yn cyfarfod i ystyried y canlyniad a chynllunio camau nesaf yr undeb ond roedd eisoes yn ceisio gweithio gydag undebau eraill i ddatblygu ymgyrch unedig ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer tâl teg i bawb.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: PCS i ddiweddaru'r Grŵp wrth i'r sefyllfa ddatblygu ac i nodi pa fath o gefnogaeth a allai fod o gymorth.**

4. **Diweddariad ar gau swyddfeydd DWP**

Roedd PCS wedi ceisio darbwyllo rheolwyr DWP Cymru yng Nghymru i fynd i'r afael â'r anawsterau teithio enfawr a fyddai gan ein haelodau sy'n gweithio yn swyddfeydd Merthyr, Caerffili, Cwmbrân, Casnewydd a Gabalfa, pe bai'r adleoli arfaethedig i safle ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest yn digwydd, gan arwain felly at berygl o golli gweithlu medrus a phrofiadol. Roedd arolwg o aelodau PCS yn y pum safle presennol wedi cefnogi pryderon yr undeb ac roedd un cynrychiolydd yng Nghwmbrân wedi teithio o gartref i'r safle arfaethedig, ynghyd â'i AS, a darganfod y byddai'r daith gyfan yno ac yn ôl yn fwy na phum awr . Er

gwaethaf hyn, roedd rheolwyr wedi gwrthod mynd i'r afael â'r materion teithio yn ogystal ag effaith andwyol colli swyddi yn y pum cymuned dan sylw, gan danseilio popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei wneud gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

O gofio bod y pwysau gan PCS eisoes wedi peri i'r DWP newid eu cynlluniau o ran trosglwyddo staff yn y Porth yn gyntaf i Gaerffili ac yna i Drefforest, a'u symud i Donypandy yn lle hynny, roedd yr undeb wedi ymrwymo i barhau i roi pwysau ar yr Adran, gan ddadlau y dylid dileu'r cynlluniau diffygiol i gael hyb 'I'r Gogledd o Gaerdydd' ac ehangu'r pum safle presennol; nid yw 'uwch-hyb' Llywodraeth y DU yn gweithio mewn cyd-destun Cymreig, lle nad oes gennym ganolfannau trefol mawr iawn. Mae gennym gymunedau llai heb gysylltiadau trafnidiaeth da iawn, sy'n golygu y dylai'r atebion i Gymru fod yn wahanol.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: PCS i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad; y Grŵp i ddarparu cefnogaeth bellach yn ôl yr angen.**

5. **Gweithlu dwy haen yn adran ddiogelwch Llywodraeth Cymru**

Adroddodd PCS fod gan swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays weithlu diogelwch 'cymysg', gyda chymysgedd o warchodwyr mewnol a'r rhai a gyflogir gan y sector preifat - ar hyn o bryd gan Vinci - a, dros amser, mae'r elfen fewnol wedi cael ei lleihau, hyd at y pwynt lle mae llawer yn llai o staff mewnol na staff Vinci ac mae tâl ac amodau'r ddwy elfen wedi pellhau yn raddol i'r pwynt lle mae yno mewn gwirionedd 'weithlu dwy haen', sy'n gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Cymru.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: Y Grŵp i godi hyn gyda'r Prif Weinidog.**

6. **Trafodaethau tâl Comisiwn y Cynulliad**

Rhoddodd PCS ddiweddariad ar drefniadau cyflog staff y Cynulliad ei hun. Roedd eu hundebau wedi dechrau ymgynghori ag aelodau cyn y trafodaethau â rheolwyr, fyddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Er bod rhai enillion wedi cael eu cyflawni trwy drafodaethau yn y blynyddoedd diwethaf, nid oedd y rheolwyr yn dymuno cael eu gweld yn gyhoeddus yn torri'r cap 1% a theimlwyd mai dim ond hyn a hyn y gallai 'cyfrifeg greadigol' ei gyflawni. Felly, er nad oedd cyflog staff Comisiwn y Cynulliad wedi cael ei daro mor galed â hynny mewn rhai adrannau Whitehall, roedd y cynnydd cronnus a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dal i fod yn sylweddol is na chyfradd chwyddiant y DU ac roedd y staff yn gynyddol yn anfodlon derbyn y sefyllfa honno. Wrth geisio'r canlyniad gorau o'r trafodaethau sydd i ddod, felly, roedd eu cydnabyddiaeth o effaith y cyfyngiadau ar y gyllideb cyflogau yn deillio o Grant Bloc Cymru yn golygu bod aelodau PCS yn y Comisiwn yn gwbl gefnogol i ymgyrch undeb y DU am godiad cyflog teg.

**<u>Gweithredu</u>: gwylio'r sefyllfa.**

7. **Preifateiddio Swyddogion Gorfodaeth Sifil y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder unwaith eto yn ceisio preifateiddio gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Swyddogion Gorfodaeth Sifil, dim ond ychydig o flynyddoedd ar ôl rhoi'r gorau i ymgais flaenorol i wneud hynny. Roedd PCS yn pryderu am oblygiadau trosglwyddo i feilïaid preifat a reoleiddir yn wael y gwaith o orfodi cosbau ariannol yn ymwneud â materion moduro, methu â chael trwydded deledu a materion tebyg, a oedd yn aml yn cynnwys diffygdalwyr a oedd ymysg y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Roedd yr undeb wedi annog y Llywodraeth i gadw gorfodi dirwyon troseddol yn effeithiol, yn ddiogel a theg yn y sector cyhoeddus, yn hytrach na gosod y cyhoedd mewn perygl o ganlyniad i feilïaid gorymwthiol ac ymosodol. Roedd 120 o staff, gan gynnwys tua ugain yng Nghymru yn wynebu preifateiddio eu swyddi a byddai rhestr fer o ymgeiswyr am y gwaith yn cael ei rhyddhau yn fuan.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: Grŵp i wneud sylwadau trwy weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Gyfiawnder.**

8. **Anghydfod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau**

Roedd aelodau PCS yn gweithio fel arholwyr gyrru ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) newydd gynnal streic deuddydd, fel rhan o anghydfod hir dros amser gweithio ac iechyd a diogelwch.

Roedd yr Asiantaeth yn mynnu cael yr hyblygrwydd i anfon staff yn uniongyrchol o'u cartrefi i ganolfan brawf hyd at 45 munud i ffwrdd, heb unrhyw amser teithio â thâl, gyda'r effaith gronnol y gallai fod yn rhaid i rai staff "weithio" 7.5 awr ychwanegol yr wythnos yn ddi-dâl, ac roedd wedi methu ag ymgynghori â PCS am y ddau ymarfer a fydd yn cael eu cynnwys yn y prawf gyrru llywio lloeren newydd. Ar ôl i fethiant y trafodaethau arwain PCS i gychwyn pleidlais ar weithredu diwydiannol, roedd rheolwyr wedi gwrthod trafod y mater ymhellach. Roedd yr undeb yn ceisio ailddechrau trafodaethau; ac atal y prawf gyrru newydd nes bod ei phryderon ynghylch iechyd a diogelwch wedi cael sylw.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: Y Grŵp i wneud sylwadau trwy weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth.**

9. **Ymgyrch Absenoldeb Salwch DVLA**

Eglurodd PCS fod gan y DVLA 'bwyntiau sbarduno salwch' - nifer y diwrnodau o absenoldebau salwch mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis a allai arwain at gamau disgyblu - wedi'u gosod ar lefel is nag unrhyw rannau eraill o'r Adran Drafnidiaeth. Mae 5,000 o staff yr Asiantaeth yn draean o gyfanswm yr adrannau a'r DVLA yw'r unig ran o'r DfT lle mae mwyafrif y staff yn fenywod. O gofio bod pwynt sbarduno salwch is yn rhoi menywod yn DVLA dan anfantais oherwydd eu bod yn anghymesur yn fwy atebol na dynion yng ngweddill yr adran i fod yn destun gweithdrefnau ffurfiol, cyngor cyfreithiol yr undeb yw bod hyn o bosibl yn achos o wahaniaethu ar sail rhyw. Felly, roedd PCS yn ceisio cyflwyno un pwynt sbardun salwch cyffredin uchel, ar draws yr Adran Drafnidiaeth, a fyddai'n golygu bod sbardun DVLA yn cael ei gynyddu, ac roedd yn ceisio trefnu trafodaethau gyda'r cyflogwr i gyflawni hyn. Pe na fyddai hyn yn digwydd, byddai'n mynd ar drywydd camau cyfreithiol, wedi'u cefnogi gan ymgyrch wleidyddol, yn y Flwyddyn Newydd.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: PCS i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad; y Grŵp i ddarparu cefnogaeth bellach yn ôl yr angen.**

10. **Unrhyw Fater Arall**

Roedd Ochr Undeb Llafur Adrannol Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder ynghylch y ffordd y cafodd Llywodraeth Cymru ei thynnu i mewn i drafodaethau ynghylch yr angen am bolisïau mwy cadarn ar Urddas a Pharch yn y gwaith o fewn y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys mewn datganiad diweddar gan arweinwyr y pleidiau a'r Llywydd. Teimlai'r DTUS fod gan Lywodraeth Cymru bolisïau cadarn eisoes yn y meysydd hyn o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth cryf rhwng y rheolwyr a'r undebau.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: Y Grŵp i ystyried ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau a'r Llywydd i egluro'r dull penodol a gymerwyd o fewn Llywodraeth Cymru fel cyflogwr.**